



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Dysgu Cymraeg Sir Benfro/Learn Welsh Pembrokeshire**

**Canolfan Ddysgu Gymunedol y Preseli  
Ysgol y Preseli  
Crymych  
Pembrokeshire  
SA41 3QH**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## **Ynglŷn â Dysgu Cymraeg Sir Benfro/Learn Welsh Pembrokeshire**

Ad-drefnwyd y sector Cymraeg i Oedolion yn 2016 gan sefydlu Canolfan Genedlaethol a rhwydwaith o ddarparwyr ar draws Cymru. Sefydlwyd Dysgu Cymraeg Sir Benfro (DCSB) yn ystod yr ad-drefnu hwn ac fe'i lleolir o fewn Adran Addysg Gymunedol ac Ieuenctid, Cyngor Sir Penfro. Mae DCSB yn ddarparwr llawn ac annibynnol o dan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (GDCG).

DCSB yw un o'r darparwyr lleiaf yng Nghymru gyda thua 800 o ddysgwyr unigol yn flynyddol ar draws Sir Benfro. Mae'n derbyn grant craidd o £325,252 gan y GDCG, a chynigir cyrsiau prif ffrwd ar lefel Mynediad i Uwch 3, yn ogystal â gweithgareddau i gefnogi dysgwyr wyneb-yn-wyneb ac ar-lein er mwyn iddynt ymarfer eu Cymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol. Derbyniwyd £13,410 yn ychwanegol gan GDCG fel tâl unigryw ddechrau'r flwyddyn hon er mwyn darparu dosbarthiadau Cymraeg yn y Cartref.

Rheolwr DCSB (sydd hefyd yn diwtor) sy'n arwain y ddarpariaeth yn strategol ac yn weithredol. Cyflogir tri aelod o staff amser llawn (gyda dau yn diwtoriaid yn ogystal), a thri aelod o staff rhan amser. Mae gan y ddarpariaeth 19 o diwtoriaid rhan amser sydd ar gytundeb fesul cwrs. Ers mis Hydref 2022, cyflogwyd Swyddog Cymraeg Gwaith i weithio gyda staff Cyngor Sir Penfro fel rhan o'r prosiect Cymraeg Gwaith.

## Crynodeb

Mae Dysgu Cymraeg Sir Benfro (DCSB) yn darparu cyrsiau prif ffrwd o lefel Mynediad hyd at Uwch sy'n diwallu anghenion dysgwyr yn dda. Er mwyn cefnogi dysgwyr ymhellach fel rhan o'u taith iaith, darperir sesiynau 'Siawns am Sgwrs' sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ymarfer siarad Cymraeg a dwysáu eu dealltwriaeth gyfannol am yr iaith, diwylliant a thraddodiadau Cymru. Mae'r darparwr hefyd yn cynnig cyrsiau Cymraeg Gwaith i weithlu Cyngor Sir Penfro, ac yn cefnogi rhieni i ddechrau dysgu Cymraeg gyda'u plant fel rhan o'r cwrs Cymraeg yn y Cartref. Trwy hyn, mae DCSB yn datblygu eu gweledigaeth yn briodol wrth ymateb i anghenion dysgwyr y Sir a thu hwnt, ac yn cyfrannu'n gyson at amcanion y Ganolfan Genedlaethol a gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae rheolwyr yn cydweithio'n addas ag Uwch Swyddog Adran Addysg Gymunedol ac Ieuencid, sy'n rhan o Adran Addysg Cyngor Sir Penfro wrth ddatblygu'r ddarpariaeth i ymateb i anghenion dysgu Cymraeg y Sir. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau diddorol trwy gyfrwng y Gymraeg i blant a'u rhieni fel rhan o'r cynllun 'Sbardun'. Er hyn, fel rhan o'r prosesau cynllunio strategol, nid yw arweinwyr yn blaengynllunio'r ddarpariaeth yn ei chyfanrwydd yn ddigon bwriadus i gynnig arlwy eang a chynhwysfawr i ddiwallu anghenion grwpiau a charfanau o ddysgwyr ar draws y Sir.

Mae Rheolwr DCSB yn arwain staff yn effeithiol ac yn cynnig cyfeiriad clir i ddatblygiadau'r gwasanaeth. Mae tiwtoriaid yn cydweithio a chefnogi ei gilydd yn ddiwyd, ac yn croesawu a chymhell dysgwyr yn frwdfrydig a chynhaliol. Mae gan reolwyr a thiwtoriaid ddisgwyliadau uchel o'u hunain ac o'r dysgwyr, ac mae'r tiwtoriaid yn hwyluso'r dysgu'n gelfydd trwy amrywio'r dulliau addysgu'n effeithiol. At ei gilydd, mae rheolwyr, ar y cyd â thiwtoriaid, yn adnabod rhinweddau addysgu a dysgu effeithiol yn briodol, ac yn mesur cynnydd medrau dysgwyr dros amser yn addas.

Mae dysgwyr yn cyfranogi'n frwd ac yn rhyngweithio'n dda mewn gwersi wrth wrando a siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus. Mae llawer yn datblygu eu medrau'n dda mewn gwersi ac yn eu cymhwyso'n effeithiol mewn gweithgareddau anffurfiol fel y clybiau darllen a chystadlaethau ysgrifennu mewn eisteddfodau, er enghraifft. Mae dysgwyr yn ymgysylltu'n dda â digwyddiadau atodol fel Côt y Dysgwyr a theithiau cerdded sy'n eu cefnogi i ymarfer siarad Cymraeg mewn cyd-destunau llai ffurfiol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at gefnogi dysgwyr i ddod i adnabod eu milltir sgwâr a chymhathu i'w cymunedau lleol. Dethlir ymdrechion a llwyddiannau dysgu Cymraeg dysgwyr yn llwyddiannus yng Ngŵyl y Dysgwyr yn flynyddol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan diwtoriaid a dysgwyr, fel ei gilydd. Trwy hyn, mae'r dysgwyr yn mwynhau dysgu Cymraeg ac yn falch o fod yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned glòs o siaradwyr newydd y Gymraeg.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Rhagorol
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Rhagorol
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

## Argymhellion

- A1 Cryfhau prosesau cynllunio strategol i flaengynllunio'r ddarpariaeth yn fwy bwriadus
- A2 Miniogi prosesau gwerthuso'r addysgu a dysgu i flaenoriaethu cryfderau a meysydd i'w gwella
- A3 Cryfhau prosesau monitro ac olrhain cynnydd grwpiau a charfanau o ddysgwyr dros amser er mwyn diwallu anghenion dysgwyr yn gynyddol effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr DCSB yn cyfranogi'n frwd yn eu gwersi ac yn cyfleu'n glir pam y maent yn awyddus i ddysgu'r iaith. Maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'u tiwtor ac yn gwneud cynnydd cyson mewn gwersi. Mae llawer o ddysgwyr yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn siarad yn unol â'u lefel ieithyddol.

Mae llawer o ddysgwyr ar lefelau Mynediad a Sylfaen yn ynganu'n dda ac yn llwyddo i ddefnyddio treigladau cyfarwydd yn gywir. Maent yn gwrandao ar ei gilydd a'u tiwtor yn amyneddgar ac yn ymateb i gwestiynau byrfyfyr yn gywir. Mae ychydig o ddysgwyr yn cynnig gwybodaeth ychwanegol yn hyderus wrth ymateb i'r tiwtor, er

enghraifft wrth drafod codi arian ar gyfer elusennau. Ar lefel Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson gywir yn eu gwersi. Mae mwyafrif y dysgwyr ar y lefel Canolradd yn ynganu'n gywir a dealladwy, er enghraifft wrth ymarfer ffurfiau amrywiol yr arddodiaid. Fodd bynnag, mae'r lleiafrif, yn enwedig ar y cyrsiau Cymraeg Gwaith, yn troi i'r Saesneg yn rhy aml.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dysgu ar y lefelau uwch yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigymell yn eu gwersi. Mae llawer yn siarad yn rhydd ac estynedig ar nifer o themâu amrywiol, gan gynnwys pynciau cyfredol yn y newyddion. Maent yn hyderus i gynnal trafodaethau'n annibynnol mewn parau ac fel grŵp, gan holi ac ateb cwestiynau yn hwyllog. Yn y sesiynau 'Siawns am Sgwrs', maent yn deall nodweddion tafodieithol gwahanol fel 'bois bach', 'drato' a 'Shir Benfro' yn dda, ac yn dechrau eu defnyddio'n hyderus fel rhan naturiol o'u sgwrs.

Manteisia'r dysgwyr ar y cyfleoedd i ddefnyddio ac ymarfer yr iaith yn fwriadus mewn digwyddiadau anffurfiol ac atodol. Er enghraifft, mae sesiynau 'Ffrindiaith' yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr sgwrsio a chymdeithasu â'i gilydd yn Gymraeg ar-lein, yn cynnwys dysgwyr o Batagonia. O ganlyniad, mae'r dysgwyr yn magu hyder ac yn ehangu eu geirfa yn llwyddiannus.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau darllen yn fuddiol. Yn unol â'u lefel, maent yn darllen testunau syml ar goedd gyda chywirdeb da. Ar lefel Mynediad, mae llawer yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr Sylfaen yn darllen brawddegau a chwestiynau byr yn dda, ac yn cymhwysu eu medrau i dasgau syml. Er enghraifft, maent yn cymhwysu eu medrau yn feistrolgar wrth ddarllen a chywain gwybodaeth berthnasol mewn posteri Cymraeg. Pan gânt y cyfle, mae llawer o ddysgwyr Canolradd yn darllen brawddegau syml yn glir ac yn gywir, ac yn deall yr hyn maent yn ei ddarllen. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dysgu ar y lefelau uwch yn darllen ystod amrywiol o destunau'n effeithiol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r dysgwyr hyn a'r rhai sy'n mynychu sesiynau 'Siawns am Sgwrs', yn cyfuno'r dulliau darllen yn effeithiol, er enghraifft wrth ddarllen ar goedd am eu taith ddelfrydol yng Nghymru. Fodd bynnag, wrth ddatblygu eu medrau darllen, mae lleiafrif y dysgwyr ar draws bob lefel yn cael trafferth ynganu geiriau cyffredin.

Mae llawer o ddysgwyr ar draws y lefelau yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol. Llwydda llawer o ddysgwyr ar lefel Mynediad a sylfaen i adeiladu ar eu medrau ysgrifennu elfennol i gyflawni tasgau syml. Mae llawer o ddysgwyr ar lefel Canolradd yn ysgrifennu'n lled estynedig am eu diddordebau, er enghraifft, yn llwyddiannus. Ar y lefelau uwch a 'Siawns am Sgwrs', mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau siarad ac ysgrifennu'n gynyddol gywir, er enghraifft wrth fynegi barn. Yn yr arferion cryf hyn, maent yn cyfuno eu medrau'n hynod fuddiol gan ddefnyddio geirfa ac ymadroddion sy'n berthnasol i'r lefel. Yn ogystal, mae dysgwyr ar y lefelau hyn yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n aeddfed, er enghraifft wrth gyflwyno portread o Waldo Williams fel arwr lleol a thrysor cenedlaethol.

Dengys data'r darparwr fod y niferoedd ymrestru wedi codi'n sylweddol ar y cyrsiau prif ffrwd dros y tair blynedd diwethaf, gyda bron i 800 o ddysgwyr wedi cofrestru yn

2022-2023. Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd ar gyrsiau dechreuwyd newydd ar lefel Mynediad.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu eu cyrsiau'n rheolaidd, gyda chyfraddau cwblhau yn gyson uchel. Mae llawer o'r dysgwyr yn symud ymlaen i barhau â'u dysgu mewn cyrsiau dilynol sy'n cael eu cyflwyno gan y darparwr.

Er bod nifer y dysgwyr cymwys sy'n dewis sefyll arholiad wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf sy'n ymgeisio yn llwyddo i ennill cymhwyster.

### **Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae DCSB yn gymuned glòs, gyfeillgar a gofalgwr lle mae bron bob dysgwr yn dangos mwynhad a brwdfrydedd at ddysgu Cymraeg. Wrth ddechrau ar eu cyrsiau, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgartrefu'n dda mewn gwarsi. Maent yn dangos parch ac empathi at ei gilydd a thiwtoriaid mewn gwarsi. Maent yn cydweithio'n adeiladol gyda'i gilydd mewn tasgau ac yn cyd-ddysgu'n frwdfrydig. Trwy hyn, mae bron bob dysgwr yn mwynhau dysgu'r iaith, gyda llawer yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau i siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n dda ar diwtoriaid a'i gilydd. Maent yn barod iawn i holi ac ateb cwestiynau, gan ddatblygu ac ehangu ar eu hymatebion yn dda. Maent yn rhyngweithio'n effeithiol mewn pâr neu grŵp, ac yn barod iawn i ddefnyddio geirfa a phatrymau iaith newydd yn unol â'u lefel. Mae'r rhan fwyaf yn gwerthfawrogi cefnogaeth barhaus tiwtoriaid, sy'n rhoi hyder iddynt siarad a defnyddio'r Gymraeg. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen i'r lefel dysgu Cymraeg nesaf yn llwyddiannus.

Mae ymagwedd a gofal tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel yng nghwmni ei gilydd. Trwy hyn, ynghyd â'r berthynas ragweithiol rhwng y dysgwyr eu hunain, maent yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth neu gyngor arnynt. Mae'r rhan fwyaf yn falch bod eu llais yn cael ei werthfawrogi, ac yn cael ei weithredu arno gan reolwyr a thiwtoriaid. Er enghraifft, yn dilyn syniadau gan ddysgwyr, mae'r darparwr wedi sefydlu clybiau 'gwên a gwau' a 'chlybiau darllen' anffurfiol sy'n cynorthwyo dysgwyr i ymarfer yr iaith wrth gyfarfod wyneb-yn-wyneb ac ar-lein.

Un o rinweddau nodedig y ddarpariaeth yw'r modd mae llawer o ddysgwyr yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr gan diwtoriaid i'w cefnogi i ddal i fyny yn eu dysgu. Mae llawer yn mynychu sesiynau unigol os ydyn nhw wedi colli sesiynau neu angen hwb ychwanegol. Caiff hyn effaith hynod gadarnhaol ar agweddau dysgwyr tuag at ddyfalbarhau i ddysgu'r iaith.

Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr agweddau cadarnhaol at gwblhau gweithgareddau yn y gwarsi a thu hwnt, er enghraifft gwaith cartref. Maent yn awyddus i ddysgu ac ymgolli mewn tasgau yn gydwobodol. Mae'r rhan fwyaf yn deall a gwerthfawrogi bod adborth cynhyrchiol tiwtoriaid yn eu cefnogi ymhellach i adnabod eu cryfderau a'r hyn mae angen iddynt ei wella fel rhan o'u taith iaith.

Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio adnoddau digidol i'w cynorthwyo i ddatblygu eu medrau ymhellach. Mae hyn yn eu cefnogi'n effeithiol i ddyfalbarhau ac i wella eu

medrau dros amser. Yn ogystal, mae llawer o ddysgwyr yn manteisio ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol er mwyn cysylltu'n anffurfiol am unrhyw agwedd o'u dysgu gyda'u cyd-ddysgwyr a'u tiwtoriaid. O ganlyniad, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau i ddefnyddio'r Gymraeg yn fedrus mewn cyd-destunau ffurfiol a llai ffurfiol.

Mae dysgwyr yn mwynhau ac yn elwa o weithgareddau atodol ac anffurfiol sydd yn cael eu trefnu'n gyson gan reolwyr, a gan y dysgwyr eu hunain. Mae'r cyfleoedd hyn, er enghraifft sesiynau 'Coffi a Chlonc', a'r clwb cerdded sy'n cael ei drefnu gan y fenter iaith leol, yn werthfawr wrth iddynt ddatblygu eu medrau gwrando a siarad Cymraeg yng nghwmni ei gilydd. Yn ogystal, maent yn falch o gefnogaeth ei gilydd a'u tiwtoriaid yn y gweithgareddau hyn ac yn awyddus i gymhwyso eu medrau yn rhagweithiol mewn profiadau hynod fuddiol.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Darperir ystod o gyrsiau prif ffrwd i ddysgwyr wyneb-yn-wyneb ac ar-lein, o lefelau Mynediad hyd at Uwch 3, gan gynnwys y sesiynau 'Siawns am Sgwrs' sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ymestyn eu medrau ymhellach. Mae tiwtoriaid yn diwallu anghenion dysgwyr yn dda trwy ddarparu ychydig o gyrsiau dwys sy'n eu cefnogi i wneud cynnydd cyflym. Yn ogystal, darperir cyrsiau Cymraeg yn y Cartref i helpu rhieni i siarad Cymraeg gyda'u plant, a chysiau Cymraeg Gwaith i helpu gweithlu Cyngor Sir Penfro. O ganlyniad i'r ddarpariaeth hon, mae cyfradd y dysgwyr sy'n ymrwymo i ddysgu a llwyddo ar bob lefel yn gyson dda.

Mae tiwtoriaid yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu profiad cynhwysol a chynhaliol i ddysgwyr wrth iddynt ddilyn eu taith iaith gyda'r darparwr. Maent yn dangos brwdfrydedd heintus ac angerdd byrlymus wrth groesawu a chefnogi dysgwyr i wneud cynnydd cyffredinol yn eu medrau, yn enwedig i siarad Cymraeg yn gynyddol ddigymell. Trwy hyn, mae dysgwyr yn magu hyder ac yn defnyddio'r iaith mewn gwersi ac mewn gweithgareddau anffurfiol yn dda. Un o rinweddau nodedig y darparwr yw'r cyfraddau uchel o ddysgwyr sy'n dychwelyd i ddysgu ar gyrsiau lefel uwch. O ganlyniad, mae tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn eu cymell yn fedrus i ddefnyddio'r iaith fel rhan annatod o'u profiad o gymhathu i'w cymunedau.

Mae rheolwyr yn cefnogi tiwtoriaid yn effeithiol ac yn rhoi sylw penodol i'w hanghenion addysgu unigol, er enghraifft trwy'r sesiynau 'AA@3': 'Ar agor am 3 o'r gloch ar ddyddiau penodol'. O ganlyniad i'r cyfleoedd gwerthfawr hyn, darperir arweiniad buddiol i diwtoriaid am unrhyw agwedd o'u gwaith trwy gefnogaeth tiwtoriaid profiadol. Mae tiwtoriaid yn cynllunio ystod dda o weithgareddau dysgu wyneb-yn-wyneb ac yn rhithiol i ddatblygu medrau dysgwyr dros amser. Maent yn addasu ac amrywio eu dulliau dysgu'n briodol ac yn rhoi amser i ddysgwyr glywed ac ailadrodd geirfa a phatrymau iaith newydd yn dda. Er enghraifft, maent yn annog dysgwyr lefel uwch i holi ac ateb cwestiynau wrth drafod gwahanol themâu cyfoes a hwyliog, fel 'ai tŷ taclus neu tŷ anniben sydd orau?'. At ei gilydd, mae llawer o diwtoriaid yn cefnogi dysgwyr i ynganu'n gynyddol gywir trwy ystod o ddulliau dysgu, fel gweithgareddau drilio ac ailadrodd amrywiol.

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd yn eu medrau llafaredd, mae tiwtoriaid yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu'n gelfydd. Er enghraifft, trwy gyflwyno

gweithgareddau ar y thema 'brethyn cartref', darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddarllen a dehongli geiriau cân Gymraeg enwog wrth iddynt wrando ar glip digidol o fand yn ei pherfformio. Mae hyn yn ei dro yn meithrin eu gwerthfawrogiad o gelfyddydau Cymreig a hanes a thraddodiadau Cymru. Mae dysgwyr ar y lefelau uwch yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n effeithiol ac yn mwynhau ac elwa o gystadlu mewn eisteddfodau, er enghraifft. Trwy ddathlu llwyddiannau'r dysgwyr buddugol yn y papur digidol 'Y Wennol', mae hyn yn annog dysgwyr eraill i ddarllen eu cynnyrch ac yn rhoi hwb iddynt ddatblygu eu medrau ysgrifennu creadigol eu hunain.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr ac maent yn cynllunio gweithgareddau'n effeithiol i'w herio'n unol â'u lefel. Maent yn hwyluso'r dysgu yn greadigol ac yn cefnogi dysgwyr yn fedrus. Mae llawer o diwtoriaid yn rhoi adborth llafar adeiladol ac yn ymateb i waith ysgrifenedig yn amserol. Ar y cyfan, mae llawer yn holi'r dysgwyr yn fedrus ac yn ymyrryd yn fwriadus i brocio a gwella eu dealltwriaeth o'r iaith. Trwy hyn, maent yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o wahanol nodweddion gramadegol y Gymraeg yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o diwtoriaid yn holi dysgwyr yn ddigon ymestynnol nac yn darparu digon o amser iddynt feddwl am eirfa a phatrymau iaith yn annibynnol wrth ymateb i wahanol gyd-destunau dysgu.

Mae rheolwyr yn darparu ac yn hyrwyddo arlwy ddi-ddorol i gefnogi dysgwyr i ymarfer siarad Cymraeg. Er enghraifft, trwy gydweithio bwriadus â menter iaith y Sir, darperir teithiau tywys o amgylch Arberth sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr sgwrsio a dod i adnabod eu cyd-ddysgwyr yn dda. Caiff dysgwyr gyfle gwerthfawr i fod yn aelod o Gôr y Dysgwyr sy'n rhoi cyfleoedd iddynt berfformio'n lleol a chenedlaethol, ac ymarfer eu Cymraeg wrth berfformio caneuon Cymraeg traddodiadol a chyfoes. Yn ogystal, dethlir llwyddiannau dysgu Cymraeg yn hynod effeithiol trwy gynnal Gŵyl y Dysgwyr yn flynyddol. Trwy hyn, mae dysgwyr yn deall pwysigrwydd siarad Cymraeg ac maent yn falch o fod yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned glòs o ddysgwyr.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae rheolwyr a thiwtoriaid yn angerddol am y Gymraeg ac yn llwyddo i greu amgylchedd dysgu cartrefol, croesawgar a Chymreig. Maent yn cynnig sylfaen gadarn i ddysgwyr lwyddo a mwynhau dysgu'r iaith. Mae'r tîm ymroddgar o diwtoriaid yn adnabod ac yn cefnogi dysgwyr yn dda ac maent yn ymateb yn effeithiol i unrhyw anghenion unigol. O ganlyniad, mae bron bob dysgwr yn gwerthfawrogi'r gofal ac yn teimlo eu bod yn cael cymorth effeithiol i gyflawni eu nodau dysgu personol.

Mae rheolwyr a thiwtoriaid yn casglu gwybodaeth berthnasol gan ddysgwyr cyn iddynt ddechrau eu cyrsiau ac yn ei ddefnyddio'n bwrpasol wrth gynllunio. Mae thiwtoriaid unigol yn monitro cynnydd dysgwyr yn ystod gwarsi a thrwy asesu eu gwaith sy'n cael ei gyflawni y tu allan i wersi, yn rheolaidd. Maent yn trafod cynnydd dysgwyr unigol mewn gwarsi ac yn dadansoddi data cwblhau yn briodol ar ddiwedd y flwyddyn, fel rhan o'u prosesau hunanwerthuso.

Mae adborth uniongyrchol thiwtoriaid mewn gwarsi yn rhoi sylw gwerthfawr i strategaethau penodol y gall dysgwyr eu defnyddio i gyfoethogi eu dysgu eu hunain.



Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn cyfeirio dysgwyr at bodlediadau, rhestrau darllen a rhaglenni radio addas er mwyn eu hannog i wrando ac ymarfer eu Cymraeg ymhellach. Trwy'r cynlluniau gwersi a'r sgysiau anffurfiol, mae tiwtoriaid yn darparu gweithgareddau'n gynhwysol ac yn llwyddo i godi ymwybyddiaeth dysgwyr am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda. Mae'r arlwy amrywiol a chyfoethog o weithgareddau atodol yn llwyddo i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o ddiwylliant, eu cymuned a Chymru fel rhan o'r byd yn ehangach. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd ychwanegol hyn i ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd tu hwnt i'r gwersi.

Mae'r berthynas agos sy'n datblygu rhwng tiwtoriaid a dysgwyr, a'r dysgwyr gyda'i gilydd, yn esgor ar ethos ac awyrgylch barchus a goddefgar. Mae rheolwyr a thiwtoriaid yn sicrhau bod lles personol dysgwyr yn flaenoriaeth gyson ac yn ganolog i'w gwaith. Maent yn modelu'r disgwyliadau uchel o ymddygiad yn dda sy'n cael effaith gadarnhaol ar agweddau a chymhelliant dysgwyr at ddysgu'r iaith.

Pan fydd gan ddysgwr anghenion dysgu penodol neu'r angen am gefnogaeth emosiynol neu gymdeithasol bellach, mae tiwtoriaid yn cynnig cefnogaeth gynhwysfawr sydd wedi'i phersonoli, lle mae hynny'n bosibl. Mae hyn yn sicrhau cyfle cyfartal i bob dysgwr fwynhau eu profiadau dysgu heb rwystrau. Gall hyn olygu sesiynau unigol ychwanegol neu sgysiau cefnogol anffurfiol, fel y bo'n briodol. Mae gan y gwasanaeth fynediad addas at gymorth allanol er mwyn cefnogi dysgwyr sydd ag unrhyw anghenion arbenigol. Maent yn cynnig cymorth priodol i gefnogi dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi drwy fwsariâu ariannol.

Mae tiwtoriaid yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain yn y gwersi a thu hwnt, ac i chwarae rhan lawn yn eu cymuned. Trwy holiaduron mewnol, holiaduron 'Dweud eich dweud' a'r Fforwm Dysgwyr, mae cyfleoedd addas i ddysgwyr leisio eu barn ar faterion pwysig. Mae rheolwyr a thiwtoriaid yn ymateb ac addasu'n effeithiol lle mae hynny'n briodol ar sail canfyddiadau llais y dysgwyr. Er hyn, nid yw dysgwyr bob amser yn cael digon o gyfleoedd i arwain a dylanwadu ar beth sy'n cael ei drafod yn y Fforwm a'i effaith ar brofiadau dysgwyr fel y cam nesaf o'u profiad o ddysgu Cymraeg.

Mae staff yn cyfathrebu'n effeithiol â dysgwyr drwy negeseuon llafar mewn gwersi, a'r cylchlythyr ac e-byst rheolaidd. Mae gwybodaeth eang a defnyddiol ar gael i ddysgwyr yn y llawlyfr, taflenni cyrsiau, ac ar y wefan. Mae staff yn cynnig arweiniad a chyingor diduedd i ddysgwyr cyn iddynt ddechrau, ac ar ddiwedd eu rhaglenni dysgu, wrth iddynt ystyried eu camau nesaf i ddysgu Cymraeg.

Mae trefniadau diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun unrhyw bryder. Mae'r polisiâu a'r gweithdrefnau diogelu yn glir. Mae'r tîm o staff yn cynnal diwylliant cryf o ddiogelu ac mae'r holl staff yn cael hyfforddiant gorfodol priodol, gan gynnwys peryglon radicaiddio. Mae rheolwyr yn dilyn polisi recriwtio diogel ac yn cwblhau'r gwiriadau cyn-gyflogaeth, gan gynnwys gwiriadau cyflogaeth a sicrhau addasrwydd staff, yn effeithiol.

Mae gan y gwasanaeth bolisi iechyd a diogelwch addas a'r asesiadau risg angenrheidiol ar gyfer eu lleoliadau dysgu.

## **Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr gynllun priodol ar gyfer darparu arlwy dysgu Cymraeg i oedolion y Sir sydd hefyd yn gyson ag amcanion y GDCG. Mae'r Rheolwr yn arwain ei thîm yn effeithiol ac mae'r tiwtoriaid a'r staff gweinyddol yn cydweithio'n arbennig o dda. Mae ganddynt ddyletswyddau clir ac amrywiol sy'n sicrhau bod eu harbenigeddau'n cyflawni gofynion cenedlaethol yn y maes, ac yn cynnig darpariaeth amrywiol i ddysgwyr. Mae'r staff hyn, ar sail eu cyfrifoldebau penodol yn mynychu, ac yn cyfrannu at, gyfarfodydd y GDCG yn rheolaidd.

Mae'r Rheolwr yn arwain staff yn effeithiol a chadarn iawn. Mae gan y darparwr dîm cymharol fach o 4 aelod o staff craidd sy'n addysgu fel rhan o'u cyfrifoldebau. Mae gan y staff hyn gyfrifoldebau penodol am arwain ar feysydd gwahanol sy'n cynnwys Cymraeg yn y Gweithle a'r Cartref; Hyfforddiant, Ansawdd ac Arholiadau; Marchnata a dysgu atodol; a Chymraeg Gwaith, ynghyd ag 19 tiwtor rhan amser. Mae gan bob aelod o staff swydd ddisgrifiad ffurfiol ac maent yn glir am eu cyfrifoldebau eu hunain a'i gilydd. Mae'r Rheolwr yn llwyddo i sicrhau bod prosesau gwerthuso, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn cael eu cynnal yn systematig. Yn ogystal, mae trefn rheoli ansawdd yr addysgu yn briodol lle cymerir camau adeiladol i ymdrin â thanberfformiad.

Mae'r ddarpariaeth yn rhan greiddiol o Adran Addysg Cyngor Sir Penfro. Mae llinellau atebolrwydd rhwng Rheolwr DCSB ac Uwch Swyddog Adran Addysg a Chymunedol ac Ieuenctid, sy'n rhan o'r Adran Addysg yn ei chyfanrwydd, yn glir. At ei gilydd, mae'r arweinwyr hyn yn cydweithio'n addas wrth ddechrau ymateb yn greadigol a chyfannol i anghenion dysgwyr y Sir. Er enghraifft, mae arweinwyr yn defnyddio cyllid ysgolion a chyllid o'r gronfa ffyniant yn briodol ar gyfer darparu cynllun 'Sbardun' sy'n cefnogi rhieni a phlant i gael profiadau a datblygu medrau gwahanol gyda'i gilydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy hyn, trefnwyd bod DCSB yn darparu cwrs Blasu byr i rieni er mwyn eu cefnogi i ddechrau dysgu Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw prosesau cynllunio strategol i flaengynllunio'r ddarpariaeth yn ei chyfanrwydd yn ddigon bwriadus i gynnig arlwy eang a chynhwysfawr i ddysgwyr ar draws y Sir.

Mae gan reolwyr weithdrefnau hunanwerthuso effeithiol sy'n seiliedig ar ddata o'r cylch arsylwi blynyddol, cyfarfodydd DPP, ac adborth y dysgwyr o wahanol werthusiadau penodol. Mae'r Rheolwr Hyfforddiant ac Ansawdd yn trefnu prosesau ansawdd y darparwr yn effeithiol a sicrhau bod pob tiwtor yn cael ei arsylwi'n flynyddol fel rhan o'r cylch arsylwi. Mae'r rheolwyr yn ymateb yn briodol i gefnogi tiwtoriaid i gynnal a gwella y safon ddisgwyliedig. Mae trefn DPP wedi ei theilwra ar gyfer y tiwtoriaid ac fe'i gweithredir yn bwrpasol er mwyn i'r Rheolwr a'i thîm reoli asesu'r canlyniadau a gweithredu arnynt. Sicrhau bod y gweithdrefnau arsylwi a DPP yn bwydo'r 'Cynllun Hyfforddi' sy'n diwallu anghenion tiwtoriaid yn briodol.

Mae cefnogaeth gyson i staff ddilyn cymhwyster cenedlaethol Dechrau Dysgu. Cynigir rhaglen hyfforddi eang i diwtoriaid yn flynyddol sy'n cynnwys cyfuniad o hyfforddiant mewnol gan y darparwr, gan Gyngor Sir Penfro a gan y Ganolfan Genedlaethol, fel bod pob tiwtor yn cael y wybodaeth a'r arweiniad diweddaraf o'r maes. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod pob aelod o staff y darparwr yn cwblhau

hyfforddiant ar-lein mewn meysydd amrywiol fel diogelu, iechyd meddwl a cham-drin domestig.

Mae'r tîm rheoli yn cydweithio ar gyfer llunio'r fframwaith ansawdd cenedlaethol (FfAC) ac maent yn ei ddefnyddio'n briodol fel cyfrwng i roi sylw i feysydd sydd angen eu gwella. Mae'r Cyngor Sir yn cymryd rhywfaint o berchenogaeth dros ansawdd gweinyddiaeth y darparwr trwy dderbyn adroddiad y FfAC a thrwy ymateb yn effeithiol lle gwelir bod risgiau neu wendidau posibl. Mae'r darparwr yn monitro a gwerthuso data yn briodol ac yn cymryd camau gweithredu perthnasol i ymateb i unrhyw feysydd i'w datblygu. Er enghraifft, mae'r staff gweinyddol yn cysylltu â dysgwyr sy'n absennol er mwyn eu cefnogi ymhellach, ac yn darparu cyrsiau 'dal i fyny' a chysiau dros yr haf er mwyn eu hybu a'u cefnogi i siarad Cymraeg rhwng rhaglenni dysgu. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at berfformiad cryf a chyson y darparwr yn erbyn eu targedau recriwtio, a lefelau cwblhau a dilyniant. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr yn monitro ac olrhain cynnydd grwpiau a charfanau o ddysgwyr dros amser yn ddigon manwl i'w cefnogi i fireinio'r ddarpariaeth ymhellach er mwyn diwallu anghenion dysgwyr yn gynyddol effeithiol. At ei gilydd, fel rhan o'r gweithdrefnau hunanwerthuso, nid yw rheolwyr yn adnabod ac yn datblygu meysydd i'w gwella yn ddigon manwl bob tro, er enghraifft agweddau penodol o'r addysgu a'r dysgu.

Mae'r darparwr yn gweithio'n briodol gyda nifer o bartneriaid y Cyngor Sir ac mae'n rhan o grwpiau strategol fel y Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg, Grŵp Strategaeth yr Iaith Gymraeg Cyngor Sir Penfro a'r Fforwm Iaith. Trwy hyn, mae DCSB yn dechrau cael llais ac effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth ehangach y Gymraeg mewn sectorau eraill yn y Sir.

Mae gan reolwyr ymwybyddiaeth addas am yr heriau cynllunio ac ariannu sy'n wynebu'r darparwr a'r angen i gael cydbwysedd rhwng gor-wario ar ddarpariaeth gymunedol a buddsoddi mewn staff i fedru cynnal gwasanaeth sy'n denu grantiau, er enghraifft Cymraeg Gwaith a Chymraeg yn y Cartref. Gyda chefnogaeth y Cyngor Sir, mae'r Rheolwr yn rheoli'r gyllideb yn ddarbodus ac yn gweithredu o fewn y gyllideb ddynodedig. Mae'r Cyngor Sir yn brigdorri 15% o'r incwm sy'n cyfrannu at gefnogaeth ymarferol gan wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys cefnogaeth weinyddol a'r defnydd o adeiladau ar gyfer lleoli staff ac ar gyfer addysgu. Mae gan reolwyr ymwybyddiaeth briodol o'r angen i roi sylw i'r gor-berfformiad yn erbyn y targed recriwtio gan nad ydyw'n gynaliadwy yn ariannol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr ac ystyried barn tiwtoriaid a staff drwy eu hymatebion holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â phennaeth y darparwr, cynrychiolydd y corff rheoli/corff llywodraethol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol), a thiwtoriaid i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn ymgysylltu â dysgwyr i drafod eu gwaith ac i glywed eu barn am agweddau amrywiol ar y darparwr
- yn cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr, fel cynrychiolwyr grwpiau llais y dysgwr
- yn ymweld â sampl eang o ddogfenniadau ac yn ymgymryd â theithiau dysgu i arsylwi dysgwyr mewn gwersi ac mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynlluniau gwella'r darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff rheoli/llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 13/03/2024